


RCSLT WALES CYMRU

# Mai 2026
# Adroddiad Cyflwr y Genedl
## Y Gweithlu Therapi Lleferydd ac Iaith yng Nghymru

Coleg Brenhinol Therapyddion Lleferydd ac Iaith | Cymru

> Mae fy mrawd fel arfer yn anwybyddu pobl, yn enwedig pobl newydd. Roeddwn i'n synnu i weld sut roedd yn rhyngweithio'n gyfforddus gyda'r therapydd lleferydd ac iaith, a sut y gellir defnyddio rhyngweithio dwys i fod gydag ef yn ei fyd.

> Roeddwn i am ddiolch yn fawr iawn i chi am yr holl gymorth a chefnogaeth rydych chi wedi'i rhoi i mi yn ystod ein sesiynau. Galla i ddweud o'r diwedd fy mod i'n fenyw newydd ac mae'r cyfan oll yn ddiolch i chi. Cawson ni gyfarfod ddoe ac fe wnes i ymarfer yr ysgwydd fel y gwnaethon ni siarad amdano, waw, roedd yn anhygoel, diflannodd y tensiwn ac roedd fy llais wedi lleddfu.

> Mae wedi bod yn gymaint o bleser eich cael chi ar gyfer ein sesiynau therapi, gallaf weld gwahaniaeth mor fawr yng nghyfathrebu fy ngŵr a hefyd yn ei hwyliau. Rydyn ni'n cyfathrebu gymaint yn well gyda'n gilydd. Mae wedi bod yn hwb enfawr.

> Mae'r hyfforddiant dysffagia wedi cynyddu fy hyder a'm cymhwysedd wrth reoli dysffagia. Eglurodd y therapydd lleferydd ac iaith y cysyniadau anodd gan wneud yr hyfforddiant yn hygyrch ac yn gofiadwy. Rwy'n teimlo'n fwy parod ac wedi fy ngrymuso i roi'r hyn rydw i wedi'i ddysgu ar waith er mwyn gwella gofal i'n hunigolion ag anawsterau llyncu.

# Cynnwys


Rhagair 4

Pam mae angen y gweithlu therapi lleferydd ac iaith ar Gymru? 7

Beth yw'r galw am y gweithlu therapi lleferydd ac iaith yng Nghymru a sut mae'n newid? 11

Sut olwg sydd ar y gweithlu therapi lleferydd ac iaith presennol? 33

Sut olwg fydd ar y gweithlu therapi lleferydd ac iaith yn y dyfodol? 47

Argymhellion 57

# Gan Bennaeth Swyddfa Cymru



**Pippa Cotterill**
Pennaeth Swyddfa Cymru Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith

Mae'n bleser gennyf gyflwyno ein hadroddiad newydd ar Gyflwr y Genedl. Mae'n adeiladu ar ein hadroddiad cychwynnol ym mis Ionawr 2025, gan gynnig darlun newydd a manylach o'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu ein proffesiwn ar adeg dyngedfennol.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi parhau i ymgysylltu'n agos ag aelodau, partneriaid a rhanddeiliaid ar draws y maes iechyd, addysg a gofal cymdeithasol.

Mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu'r sgyrsiau hynny, gan ddarparu data wedi'i ddiweddaru ar faterion allweddol a nodwyd yn flaenorol-gan gynnwys cyfraddau swyddi gwag, niferoedd myfyrwyr, a'r ddarpariaeth Gymraeg-gan ehangu ein dealltwriaeth mewn meysydd newydd a phwysig hefyd.

Yn benodol, rydym yn archwilio argymhellion staffio ar draws ystod o lwybrau clinigol, gan dynnu sylw at raddfa'r gweithlu sydd ei angen i ddarparu gwasanaethau diogel, effeithiol a theg.

Er y gwelwyd meysydd cynnydd, mae'r canfyddiadau hefyd yn tanlinellu'r pwysau sy'n barhaus ac, mewn rhai achosion, sy'n gynyddol. Mae'r galw am therapi lleferydd ac iaith yn parhau i gynyddu ledled Cymru, nid yn unig o ran nifer y bobl sy'n dibynnu ar y gwasanaethau hyn, ond hefyd o ran cymhlethdod cynyddol eu hanghenion. O gymorth yn y blynyddoedd cynnar i adsefydlu oedolion, mae ein gweithlu yn ymateb i ofynion mwy amrywiol a dwys nag erioed o'r blaen.

Yn erbyn y cefndir hwn, mae'r gostyngiad mewn lleoedd myfyrwyr ar draws y ddwy brifysgol yng Nghymru yn fater o bryder sylweddol.

Mae cyflenwad cynaliadwy ar gyfer gweithlu amrywiol yn hanfodol os ydym am gwrdd â'r galw presennol, heb sôn am gynllunio'n effeithiol ar gyfer y dyfodol. Heb fuddsoddiad digonol mewn addysg a hyfforddiant, rydym mewn perygl o ychwanegu at nifer y swyddi gwag presennol a rhoi straen pellach ar weithlu sydd eisoes wedi'i ymestyn.

Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at yr adroddiad hwn ac i'r gwaith parhaus o gryfhau gwasanaethau therapi lleferydd ac iaith. Mae ymroddiad ac arbenigedd ein gweithlu yn glir ar draws y tudalennau hyn. Mae'n ddyletswydd bellach ar bob un ohonom - llunwyr polisi, addysgwyr, cyflogwyr, ac arweinwyr proffesiynol - i ymateb gydag uchelgais a phenderfyniad.

Gyda'n gilydd, mae'n rhaid i ni sicrhau bod gwasanaethau therapi lleferydd ac iaith yng Nghymru yn barod i ddiwallu anghenion ein poblogaeth, nawr ac yn y blynyddoedd i ddod.











# Pam mae angen y gweithlu therapi lleferydd ac iaith ar Gymru?

Mae therapyddion lleferydd ac iaith a chynorthwywyr therapi lleferydd ac iaith yn darparu triniaeth, cefnogaeth a gofal sy'n gwella bywydau i blant ac oedolion sy'n cael anawsterau gyda chyfathrebu, bwyta, yfed a/neu lyncu.

Mae'r gweithlu therapi lleferydd ac iaith yn chwarae rhan allweddol wrth leihau anghydraddoldebau iechyd a gwella ansawdd bywyd. Mae therapyddion a chynorthwywyr therapi lleferydd ac iaith yn gweithio'n uniongyrchol gyda phobl sydd ag anghenion cyfathrebu a/neu lyncu yn ogystal â theuluoedd a gofalwyr. Maent yn darparu hyfforddiant a strategaethau i'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol, addysg a chyfiawnder ehangach fel y gallant adnabod arwyddion anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu neu anawsterau bwyta, yfed a llyncu, gwella amgylchedd cyfathrebu pobl ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu a lleihau effaith eu hanghenion.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi trawsnewid y ffordd rydym yn gweithio fel proffesiwn. Yn unol â methodoleg gofal iechyd sy'n seiliedig ar werth, mae ffocws cryf ar gyflawni'r canlyniadau gorau posibl yn y ffordd fwyaf effeithlon. Mae Therapyddion Lleferydd ac Iaith yng Nghymru yn arwain y ffordd ledled y Deyrnas Unedig o ran cyfran y byrddau iechyd lleol sy'n defnyddio offeryn canlyniadau ar-lein RCSLT i gefnogi'r gwaith o gasglu mesurau canlyniadau therapi (dull o gasglu gwybodaeth am ganlyniadau therapi ac adsefydlu). Mae ffocws hefyd ar draws y proffesiwn ar wella cymysgedd sgiliau i greu gweithlu cynaliadwy sy'n gweithio ar frig ei drwydded.


# Pwy sy’n cael budd o therapi lleferydd ac iaith?

## Mae therapi lleferydd ac iaith yn fuddiol i bobl o bob oed:



### Babanod

Gall cyn-aeddfedrwydd gynyddu’r tebygolrwydd o anawsterau llyncu a lleferydd, iaith a chyfathrebu yn sylweddol o’i gymharu â babanod sy’n cael eu cario i’w hamser. Mae therapyddion yn gweithio gyda babanod sy’n derbyn gofal ar unedau newydd-enedigol a’u teuluoedd ym maes bwydo a datblygu cyfathrebu.[1]



### Blynyddoedd Cynnar

Mae’r gweithlu therapi lleferydd ac iaith yn chwarae rhan bwysig wrth gefnogi a hyrwyddo datblygiad iaith plant yn y blynyddoedd cynnar. Mae gan dros **10%** o blant a phobl ifanc anghenion cyfathrebu hirdymor.[2] Mae **32%** o blant ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn byw mewn ardaloedd o anfantais gymdeithasol uchel.[3]



### Plant oed ysgol

Mae’r gweithlu lleferydd ac iaith yn chwarae rhan allweddol yn yr agenda anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Anghenion lleferydd iaith a chyfathrebu yw’r math mwyaf cyffredin o anghenion dysgu yng Nghymru sy’n effeithio ar **36.2%** o blant ag ADY.[4] Mae dau blentyn ym mhob dosbarth o ddeg ar hugain, neu **7.58%** o blant, yn dechrau’r ysgol gydag Anhwylder Datblygu Iaith.[5]


1 Jadcherla, S R (2016). Dysphagia in the high-risk infant: potential factors and mechanisms. The American journal of clinical nutrition. 103(2), 622S-628S
2 Hartshorne, M (2006). The Cost to the Nation of Children’s Poor Communication. Cyfres Siarad ICAN Rhif 2. Llundain: ICAN
3 Llywodraeth Cymru (2025) Cyfrifiad ysgolion blynyddol ar lefel disgyblion (CYBLD): Ionawr 2025 [HTML] | LLYW. CYMRU a Llywodraeth Cymru (2025) Mynegai Amddifadedd Lluosog Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2025 | LLYW.CYMRU
4 Llywodraeth Cymru (2025) Cyfrifiad ysgolion blynyddol ar lefel disgyblion (CYBLD): Ionawr 2025 [HTML] | LLYW. CYMRU
5 Norbury, C F, Gooch, D, Wray, C, Baird, G, Charman, T, Simonoff, E, Vamvakas, G & Pickles, A (2016). The impact of nonverbal ability on prevalence and clinical presentation of language disorder: evidence from a population study. Journal of Child Psychology and Psychiatry, 57(11), 1247–1257
6 Llywodraeth y DU (2020). Assessing the needs of sentenced children in the Youth Justice System - https://www.gov.uk/government/statistics/assessing-the-needs-of-sentenced children-in-the-youth-justice-system
7 Enderby, P, and Davies, P, (1989). Communication Disorders: planning a service to meet the needs. BJDC; 24, 151-166.






### Pobl ifanc

Mae’r gweithlu therapi lleferydd ac iaith yn chwarae rhan unigryw wrth gefnogi plant a phobl ifanc sy’n agored i niwed. Mae gan **81%** o blant a phobl ifanc ag anhwylderau emosiynol ac ymddygiadol anghenion cyfathrebu nad ydynt wedi’u nodi o’r blaen. Roedd gan **71%** o’r plant a ddedfrydwyd yn y system cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru a Lloegr (Ebrill 19-Mawrth 20) anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu.[6]



### Oedolion

Mae’r gweithlu therapi lleferydd ac iaith yn cefnogi oedolion ag anableddau dysgu a’r rheini ag anawsterau cyfathrebu, llais a/neu lyncu o ganlyniad i gyflyrau meddygol, fel strôc, canser y pen a’r gwddf a dementia. Mae gan **50%-90%** o’r boblogaeth ag anableddau dysgu anawsterau cyfathrebu.[7] Mae mwy nag **85%** o bobl sy’n byw gyda dementia yn profi anawsterau bwyta, yfed a llyncu.[8]



### Oedolion bregus

Mae’r gweithlu therapi lleferydd ac iaith yn cefnogi’r boblogaeth fregus, oedrannus sydd mewn perygl uchel o anawsterau bwyta, yfed a llyncu. Maent yn galluogi pobl i fyw’n dda gartref ac yn atal derbyniadau i’r ysbyty drwy leihau risgiau wrth fwyta ac yfed a chynorthwyo cyfathrebu â’r teulu a gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol. Ar gyfer y rhai dros 80 oed, mae nifer yr achosion o anawsterau bwyta, yfed a llyncu wedi cynyddu i **82.4%**.[9] Mae gan **79%** o bobl ar ddiwedd eu hoes anawsterau bwyta, yfed a llyncu.[10]

8 Espinosa-Val, M C, Martin-Martínez, A, Graupera, M, Arias, O, Elvira, A, Cabré, M, Palomera, E, Bolívar-Prados, M, Clavé, P, and Prtega, O (2020) Prevalence, Risk Factors, and Complications of Oropharyngeal Dysphagia in Older Patients with Dementia. Nutrients. 12, 863. https://doi.org/10.3390/nu12030863
9 Mateos-Nozal, J, Montero-Errasquin, B, Sanchez Garcia, E, Romero Rodriguez, E, Cruz-Jentoft, A, (2020). High prevalence of oropharyngeal dysphagia in acutely hospitalised patients aged 80 years and older. Journal of the American Medical Directors Association. (12):2008-2011. https://pubmed.ncbi.nlm.nih.gov/32499182/
10 Bogaardt, H, Veerbeek, L, Kelly, K et al, (2015). Swallowing Problems at the End of the Palliative Phase: Incidence and Severity in 164 Unsedated Patients. Dysphagia 30, 145–151. https://doi.org/10.1007/s00455-014-9590-1




# Beth yw'r galw am y gweithlu therapi lleferydd ac iaith yng Nghymru a sut mae'n newid?

Mae'r galw am therapi lleferydd ac iaith wedi cynyddu'n sylweddol dros y degawd diwethaf i blant ac oedolion gan gynnwys y rheini ag anableddau dysgu. Mae galwadau ar therapyddion lleferydd ac iaith i ehangu i feysydd lle mae angen sylweddol heb ei ddiwallu.

# Graddedigion

Dim ond 24/42 o raddedigion oedd â swyddi



Yn adroddiad Cyflwr y Genedl 2025, adroddwyd bod Llywodraeth Cymru wedi cydnabod prinder therapyddion Lleferydd ac Iaith yng Nghymru.[1]

Yn 2026, rydym yn pryderu, er gwaethaf tystiolaeth glir o'r angen a'r galw cynyddol am wasanaethau therapi lleferydd ac iaith, mai dim ond **24/42** o raddedigion cyrsiau therapi lleferydd ac iaith yn haf 2025 a oedd yn derbyn bwrsariaeth GIG Cymru, oedd â swyddi ym mis Mawrth 2026. Ein dealltwriaeth yw bod y sefyllfa annerbyniol hon yn deillio o'r pwysau ariannol sy'n wynebu byrddau iechyd lleol. Adroddodd **chwech o'r saith** bwrdd iechyd lleol yng Nghymru yn arolwg gweithlu RCSLT 2026 nad yw'r nifer presennol o therapyddion yn ddigonol i ddiwallu anghenion y gwasanaeth a datgelodd **pedwar o'r saith** gwasanaeth fod swyddi therapi lleferydd ac iaith cymwysedig wedi'u rhewi yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.[2]

Mae hyn yn bryder mawr. Mae gan fyfyrwyr sy'n dilyn y cwrs therapi lleferydd ac iaith israddedig yng Nghymru hawl i wneud cais am fwrsariaeth GIG Cymru. O dan delerau ac amodau'r fwrsariaeth, mae angen i fyfyrwyr ymrwymo i weithio yng Nghymru am ddwy flynedd ar ôl cwblhau eu hastudiaethau.

Mae myfyrwyr therapi lleferydd ac iaith wedi astudio yng Nghymru, wedi cyfrannu at ofal cleifion, ac wedi cael sicrwydd y byddai galw am eu sgiliau. Os ydym o ddifrif ynglŷn â diwallu anghenion pobl ag anghenion cyfathrebu a llyncu yng Nghymru, mae angen am waith cydgysylltiedig ar unwaith rhwng byrddau iechyd lleol a'r llywodraeth i ddod o hyd i atebion cynaliadwy.

1 Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith (2025). Adroddiad Cyflwr y Genedl - y gweithlu therapi lleferydd ac iaith yng Nghymru. https://www.rcslt.org/wp-content/uploads/2025/01/RCSLT-Wales-State-of-the-Nation-report_Welsh-version-January-2025.pdf

2 Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith (2026). Data a gasglwyd ar gyfer yr adroddiad hwn ac ar gyfer arolwg 2026 RCSLT o swyddi gwag a niferoedd cadw



# Rhestrau aros

## Rhestrau aros

Yn adroddiad Cyflwr y Genedl 2025, adroddwyd ar nifer y bobl ar restrau aros am wasanaethau therapi lleferydd ac iaith. Fe wnaethom gymharu data rhestrau aros Stats Cymru ar gyfer mis Awst 2024 â data 2019 o'r un ffynhonnell ac amlygwyd y cynnydd o **33%** yn nifer cyfartalog y bobl ar restrau aros am therapi lleferydd ac iaith yng Nghymru yn y cyfnod hwn.[3]

Ym mis Awst 2024, roedd 3,336 o bobl ar restrau aros am therapi lleferydd ac iaith. Ym mis Awst 2025, roedd 3,052 o bobl ar restrau aros am therapi lleferydd ac iaith - gostyngiad o **8%**, sy'n ddatblygiad cadarnhaol.

Mae timau byrddau iechyd lleol wedi bod yn gweithio'n greadigol i fynd i'r afael â rhestrau aros hir drwy ymyriadau fel clinigau cymorth cynnar a gwaith ataliol gyda lleoliadau meithrin ac ysgolion, fel y dangosir yn yr astudiaethau achos ar y dudalen nesaf.


Serch hynny, mae ein haelodau yn dweud wrthym, er y gwelwyd gostyngiad yn nifer cyffredinol yr unigolion ar restrau aros am therapi lleferydd ac iaith, mae cymhlethdod y rheini sydd ar y rhestrau wedi cynyddu'n sylweddol. Fel yr ydym yn trafod yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn, mae'n hanfodol ein bod yn hyfforddi a recriwtio digon o therapyddion a chynorthwywyr i ddarparu modelau gofal newydd a diwallu anghenion poblogaeth ag anghenion cynyddol gymhleth.

3 Stats Cymru (2026). Gwasanaethau therapi: Amseroedd aros llwybr Awst 2024 ymlaen https://stats.llyw.cymru/cy-GB/337263f7-58ac-42a4-ab99-9fa5126057f9

# Rhestrau aros

## Enghraifft o arfer gorau

## Gwasanaeth Cyfeirio Cyn Ysgol Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe




**o ostyngiad yn nifer y plant sy'n hwyr yn siarad yn cael eu hychwanegu at restrau aros ar gyfer darpariaeth ddilynol**

Ym mis Ionawr 2025, newidiodd y tîm therapi lleferydd ac iaith pediatrig y broses atgyfeirio cyn-ysgol i sicrhau un pwynt mynediad a mynediad prydlon at gymorth. Rhoddodd y newid hwn y gallu i deuluoedd hunangyfeirio at therapi lleferydd ac iaith. Mae creu grwpiau cyn-ysgol newydd, sy'n cynnig darpariaeth hybrid o wybodaeth i rieni a sesiynau chwarae dan arweiniad plant, wedi bod yn hanfodol i ddatblygu'r gwasanaeth newydd.

Mae'r newid hwn wedi arwain at ostyngiadau yn y rhestrau aros ar gyfer ymyrraeth gyda'r rhan fwyaf o deuluoedd bellach yn cael mynediad at ymyrraeth o fewn mis, pan oeddent yn aros hyd at 52 wythnos cyn hynny gyda llai o blant yn cael eu hychwanegu at restrau aros. Er enghraifft, bu gostyngiad o **76%** yn nifer y plant sy'n hwyr yn siarad yn cael eu hychwanegu at restrau aros ar gyfer ymyrraeth ddilynol, yn lle hynny maent wedi cael mynediad at hyn ar unwaith. Mae'r gwasanaeth un pwynt mynediad hunan-atgyfeirio hefyd wedi arwain at fwy o bresenoldeb mewn apwyntiadau gan deuluoedd mewn ardaloedd difreintiedig, gydag apwyntiadau a gollwyd / wedi'u canslo yn gostwng tua **22%**, gan fod teuluoedd yn gofyn am gymorth pan fyddant wedi eu cymell gan ymgysylltu'n weithredol.

Ers mis Ionawr 2026, mae'r gwasanaeth mynediad agored bellach wedi'i ymestyn ar draws gwasanaethau pediatrig sy'n golygu nad oes angen i deuluoedd bellach gael eu cyfeirio drwy'r ysgol neu weithwyr gofal iechyd proffesiynol ond gallant hunangyfeirio pan fyddant yn pryderu.



## Enghraifft o arfer gorau

## Tîm Ymyrraeth Cyfathrebu (ComIT) a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Gall disgyblion mewn dosbarthiadau prif ffrwd fod ag anghenion iaith a chyfathrebu sylweddol sy'n effeithio ar ddysgu, cyfranogiad a hyder. Drwy gydweithio, mae ComIT a gwasanaeth therapi lleferydd ac iaith y Bwrdd Iechyd yn gweithredu rhaglen gymorth gydgysylltiedig, sy'n canolbwyntio ar y plentyn.

Mae cynllunio ar y cyd yn sicrhau blaenoriaethau a dulliau gweithredu cyson ar draws addysg ac iechyd. Mae ymyrraeth wedi'i thargedu yn cynnwys modelu a hyfforddi ar gyfer staff ysgolion, gan alluogi strategaethau i gael eu hymgorffori yn arferion yr ystafell ddosbarth. Mae cyfathrebu rheolaidd rhwng gweithwyr proffesiynol yn cefnogi proses adolygu ac addasu targedau amserol gyda chyfranogiad rhieni drwy arsylwi ac adnoddau a rennir, gan gryfhau cysondeb rhwng cartref ac ysgol.

Gall disgyblion wneud cynnydd clir o ran sylw a gwrando, iaith fynegiannol, sgiliau naratif a rhyngweithio cymdeithasol, gyda mwy o hyder a chyfranogiad wedi'i nodi gan staff a theulu. Mewn un adolygiad therapi lleferydd ac iaith, dywedodd y therapydd fod cynnydd y disgybl wedi creu argraff fawr arnynt, gan dynnu sylw at y cynnydd mewn hyder a sgiliau cyfathrebu ac effaith sylweddol y gefnogaeth a ddarparwyd gan ComIT yn gweithio ochr yn ochr â staff yr ysgol.

Mae'r strwythur a'r dull gweithredu yn cryfhau gallu'r gweithlu, yn lleihau dyblygu ac yn cynyddu capasiti'r system, gan ddangos sut mae gwaith integredig rhwng addysg ac iechyd yn sicrhau effaith gynaliadwy y tu hwnt i ymyrraeth unigol.

# Babanod, plant a phobl ifanc

## Babanod




**o ddiffyg cyfartalog rhwng y lefelau staffio therapyddion lleferydd ac iaith a argymhellir ar gyfer unedau yng Nghymru, a'r lefelau gwirioneddol**

Yn adroddiad 2025[4] fe wnaethom drafod sut mae cyfraddau goroesi ar gyfer babanod cynamserol a'r rhai â phwysau geni isel wedi codi'n sylweddol yn y 30 mlynedd diwethaf oherwydd datblygiadau mewn gofal newydd-enedigol arbenigol[5] a sut y gall cynamseredd gynyddu'n sylweddol y tebygolrwydd o anawsterau llyncu ac anawsterau lleferydd, iaith a chyfathrebu o'i gymharu â babanod tymor llawn.[6]

Fel yr argymhellir gan safonau Cymdeithas Meddygaeth Amenedigol Prydain ar gyfer gofal newydd-enedigol, o gyfnod cynnar iawn mewn bywyd, mae therapyddion lleferydd ac iaith yn cefnogi plant a babanod cynamserol sy'n cael anawsterau gyda sgiliau yfed, llyncu a chwarae a chyfathrebu cynnar, o ganlyniad i enedigaethau cynamserol, cyflyrau genetig neu niwrolegol. Mae'r fanyleb gwasanaeth ar gyfer gwasanaethau newydd-enedigol yn cydnabod y rôl hanfodol y mae Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd gan gynnwys therapyddion lleferydd ac iaith yn ei chwarae yn y tîm amlddisgyblaeth a'r effeithiau cadarnhaol y maent yn eu cael ar hyd arhosiad, profiadau teuluol, canlyniadau niwroddatblygiadol ac iechyd.[7]

Mae argymhellion staffio therapi lleferydd ac iaith yn bodoli ar gyfer unedau newydd-enedigol[8] a darpariaeth ddilynol.[9] Ym mis Chwefror 2026, gwnaethom feincnodi'r ddarpariaeth mewn byrddau iechyd lleol yng Nghymru yn erbyn y cymarebau staffio a argymhellir. Dim ond dau fwrdd iechyd lleol oedd yn bodloni'r argymhellion ar gyfer darparu therapi lleferydd ac iaith mewn unedau newydd-enedigol. Yr hyn sy'n peri pryder yw hyn, yn y pedwar bwrdd iechyd lleol sy'n weddill (mae Powys wedi'i eithrio o ystyried absenoldeb uned newydd-enedigol), y diffyg cyfartalog yn erbyn yr argymhellion oedd **80%**. Ar ben hynny, **nid oes unrhyw fwrdd iechyd lleol yn bodloni argymhellion manyleb gwasanaeth gweithlu amenedigol GIG Cymru ar gyfer gwaith dilynol.**

Mae hyn yn gyson â chanfyddiadau adroddiad diweddar Bliss ar Weithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd mewn gwasanaethau newydd-enedigol ledled y DU a amlygodd ddiffyg cyfartalog o **62%** rhwng y lefelau staffio a argymhellir ar gyfer unedau yng Nghymru a'r lefelau staffio ar hyn o bryd.[10] Adleisiwyd y pryderon hyn hefyd yn Asesiad Sicrwydd Cenedlaethol 2026 o Ofal a Gwasanaethau Mamolaeth a Newydd-enedigol yng Nghymru a amlygodd fod diffyg cyffredinol o bob grŵp staff gan gynnwys gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd.[11] O ystyried tystiolaeth ynghylch rôl allweddol Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd a therapyddion lleferydd ac iaith wrth optimeiddio gofal a gwella canlyniadau babanod newydd-anedig risg uchel, mae'r sefyllfa yng Nghymru yn bryderus iawn ac mae angen gweithredu ar frys.

4 Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith (2025). Adroddiad Cyflwr y Genedl - y gweithlu therapi lleferydd ac iaith yng Nghymru. https://www.rcslt.org/wp-content/uploads/2025/01/RCSLT-Wales-State-of-the-Nation-report_Welsh-version-January-2025.pdf

5 Cymdeithas Meddygaeth Amenedigol Prydain (2019). Perinatal Management of Extreme Preterm Birth before 27 weeks of gestation: A Framework for Practice. https://hubble-live assets. s3.amazonaws.com/bapm/attachment/file/182/Extreme_Preterm_28-11-19_FINAL.pdf

6 Jadcherla, S R (2016). Dysphagia in the high-risk infant: potential factors and mechanisms. The American journal of clinical nutrition. 103(2), 622S-628S

7 Cymdeithas Meddygaeth Amenedigol Prydain (2022). Service and Quality Standards for the Provision of Neonatal Care in the UK – a BAPM Framework for Practice. Service and Quality Standards for Provision of Neonatal Care in the UK | Cymdeithas Meddygaeth Amenedigol Prydain

8 Coleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd (2025). Speech and language therapy staffing recommendations for neonatal units. https://www.rcslt.org/wp-content/uploads/2023/03/Neonatal-staffing-levels-2025-Final.pdf

9 Gweithrediaeth y GIG: Rhwydwaith Clinigol Strategol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Mamolaeth a Newydd-enedigol (2025) Manyleb Gwasanaeth Gweithlu Amenedigol Drafft

10 Bliss (2025). Filling the Gaps: A spotlight on Allied Health Professional, Psychological and Pharmacy roles in Neonatal Care. https://sr-bliss.s3.amazonaws.com/documents/Filling-the-gaps_final-1-2.pdf

11 Llywodraeth Cymru (2026). Y llwybr tuag at ddechrau mwy diogel yng Nghymru: Asesiad sicrwydd cenedlaethol o ofal a gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol. https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2026-02/atodiadau-y-llwybr-tuag-at-ddechrau-mwy-diogel-yng-nghymru-asesiad-sicrwydd-cenedlaethol-o-ofal-a-gwasanaethau-mamolaeth-a-newyddenedigol.pdf

# Babanod, plant a phobl ifanc

## Gwasanaethau plant

- Yn 2025, fe wnaethom dynnu sylw at bryderon sylweddol ynghylch cynnydd mewn anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn dilyn y pandemig.[12] Mae hyn yn gyson â thystiolaeth genedlaethol a rhyngwladol gan addysgwyr[13] a'r pryder mwyaf yw bod plant yn methu â bodloni cerrig milltir datblygiadol nodweddiadol a allai effeithio ar eu lles emosiynol, eu cyfathrebu a'u datblygiad dysgu.

  Ym mis Medi 2025, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru[14] ymchwil a gomisiynwyd gan Brifysgol Bangor a Phrifysgol De Cymru ar effaith pandemig COVID-19 ar anghenion lleferydd iaith a chyfathrebu plant 5 i 8 oed sy'n byw yng Nghymru. Fel rhan o'r ymchwil, cynhaliwyd dau arolwg gydag ymarferwyr a rhieni.




**Dywedodd tua thraean o'r holl rieni fod ganddynt bryderon am leferydd, iaith a chyfathrebu eu plentyn ers y pandemig.**

- Dywedodd tua **thraean** o'r holl rieni (n=68/196) fod ganddynt bryderon am leferydd, iaith a chyfathrebu eu plentyn ers y pandemig.
- Dywedodd bron i **9 o bob 10** ymarferydd, gan gynnwys athrawon (n=88/99) eu bod wedi gweld cynnydd yng nghymhlethdod anghenion plant yn ystod y blynyddoedd diwethaf.
- Dywedodd tua **dwy ran o dair** o ymarferwyr (n=67/99) eu bod wedi gweld cynnydd yn nifer y plant sydd angen cymorth
- Dywedodd **dros hanner** yr ymarferwyr (n=55/99) eu bod wedi gweld newidiadau yn yr anghenion lleferydd iaith a chyfathrebu sy'n dod i'r amlwg.

Daeth yr ymchwil i'r casgliad, 'yn gyffredinol, mae'r ymatebion yn dynodi pryder cynyddol ymhlith ymarferwyr am gynnydd yn niferoedd a chymhlethdod anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu plant.'[15]

Mae'r pryderon hyn yn cael eu hadleisio mewn tystiolaeth anecdotaidd gan ymarferwyr gofal plant. Rhannodd un gwasanaeth yn ne Cymru dystiolaeth mai dim ond **33%** o'r holl blant sy'n dechrau mewn gofal plant blynyddoedd cynnar (y tymor ar ôl eu pen-blwydd yn 2) o 1 Ionawr 2025, oedd yn meddu ar sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu o fewn y terfynau arferol.






**mae gan 36.2% o blant yng Nghymru ag anghenion dysgu ychwanegol anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu**

Yn ein hadroddiad yn 2025,[16] nodwyd bod gan **35%** o blant yng Nghymru ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) anghenion lleferydd iaith a chyfathrebu, yn seiliedig ar ddata cyfrifiad ysgolion blynyddol 2024. Datgelodd data cyfrifiad ysgolion 2025 fod gan **36.2%** o blant yng Nghymru sydd ag ADY anghenion lleferydd iaith a chyfathrebu. Anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yw'r math mwyaf cyffredin o anghenion dysgu yng Nghymru hyd heddiw.[17]

Mae gweithredu'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) yn llawn ym mis Medi 2025 wedi cynyddu'r llwyth gwaith ar gyfer therapyddion lleferydd ac iaith yn sylweddol. Mae gwasanaethau'r GIG yn adrodd am bwysau ychwanegol mewn gwaith clinigol - fel asesu anghenion a darparu cymorth - a thasgau gweinyddol, gan gynnwys rhannu gwybodaeth a chofnodi data. Nid oes cyllid nac adnoddau ychwanegol wedi'u darparu ar gyfer y cyfrifoldebau ychwanegol hyn. Daw pwysau pellach gan geisiadau awdurdodau lleol sy'n gysylltiedig ag achosion Tribiwnlys Addysg Cymru, gan gynnwys darparu gwybodaeth a gweithredu fel tystion arbenigol.

Mae therapyddion annibynnol wedi adrodd nad ydynt bob amser yn cael eu cynnwys yn y broses ADY. O ganlyniad, mae eu mewnbwn clinigol weithiau ar goll o drafodaethau ac o Gynlluniau Datblygu Unigol ar gyfer plant a phobl ifanc.

Er gwaethaf y dystiolaeth a gyflwynwyd uchod o ddarlun o angen cynyddol ac argymhelliad Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd yn 2024 y dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r bylchau yn nifer y gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd (gan gynnwys therapyddion lleferydd ac iaith) sydd eu hangen i gefnogi'r anghenion a ragwelir yn y dyfodol[18], rydym ar hyn o bryd yn gweld prinder sylweddol o swyddi i raddedigion Cymru a gostyngiad o **31%** (o 55 i 38 ) yn nifer y lleoedd hyfforddi sydd ar gael.

12 Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith (2025). Adroddiad Cyflwr y Genedl - y gweithlu therapi lleferydd ac iaith yng Nghymru. https://www.rcslt.org/wp-content/uploads/2025/01/RCSLT-Wales-State-of-the-Nation-report_Welsh-version-January-2025.pdf
13 Fox, L, Bowyer-Crane, C, Lambrechts, A A, Manzoni, C, Nielsen, D, & Tracey, L, (2021). Mitigating Impacts of COVID-19 in the Early Years – Rapid Evidence Review UoY mitigating-impacts-of-covid19-in-early-years-rapid-evidence-review.pdf
14 Llywodraeth Cymru (2025). Anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu ôl-bandemig ar gyfer babanod a phlant bach o gyfnod y pandemig sydd bellach rhwng 5 ac 8 oed mewn addysg llawn amser yng Nghymru https://www.llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2025-09/anghenion-lleferydd-iaith-a-chyfathrebu-ol-bandemig-ar-gyfer-babanod-a-phlant-bach-o-gyfnod-y-pandemig-sydd-bellach-rhwng-5-ac-8-oed-mewn-addysg-llawn-amser-yng-nghymru.pdf
15 Ibid
16 Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith (2025). Adroddiad Cyflwr y Genedl - y gweithlu therapi lleferydd ac iaith yng Nghymru. https://www.rcslt.org/wp-content/uploads/2025/01/RCSLT-Wales-State-of-the-Nation-report_Welsh-version-January-2025.pdf
17 Stats Cymru (2025). Canlyniadau cyfrifiad ysgolion blynyddol ar lefel disgyblion: Ionawr 2025 [HTML] | LLYW. CYMRU
18 Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd (2024). A yw plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a gofal plant? https://senedd.cymru/media/qrudvrjc/cr-ld16592-w.pdf

## Darpariaeth cyfrwng Cymraeg

Mae cynllun Llywodraeth Cymru ar gyfer darparu gwasanaethau iechyd a gofal drwy gyfrwng y Gymraeg, 'Mwy na geiriau', yn cynnwys therapi lleferydd ac iaith fel grŵp blaenoriaeth.[19] Adlewyrchir hyn hefyd yng nghynlluniau byrddau iechyd lleol unigol mewn ymateb i safon 110, Safonau'r Gymraeg – 'cynyddu'r gallu i gynnig ymgynghoriad clinigol yn Gymraeg.'

Er gwaethaf y cyd-destun strategol, rydym yn parhau i bryderu nad yw'r gweithlu yn cael ei gynllunio'n ddigonol i ddeall yr angen am wasanaethau dwyieithog ar draws byrddau iechyd lleol ac arbenigeddau clinigol. Mae cynllunio o'r fath yn hanfodol er mwyn cyflawni uchelgeisiau'r cynllun 'Mwy na geiriau' a strategaeth Cymraeg 2050.[20] Cefnogir y farn hon gan Gomisiynydd y Gymraeg sydd wedi tynnu sylw at 'er bod safonau'r Gymraeg a 'Mwy na Geiriau' yn gosod seiliau ar gyfer cynyddu'r gofal sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg, mae sefyllfa'r Gymraeg yn y sector wedi aros yn ei hunfan ac nid oes gwarant y bydd siaradwyr Cymraeg yn derbyn gofal clinigol drwy gyfrwng y Gymraeg.'[21]

19 Llywodraeth Cymru (2022). Mwy na geiriau cynllun pum mlynedd 2022-27. https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-07/mwy-na-geiriau-cynllun-gweithredu-2022-2027.pdf

20 Llywodraeth Cymru (2017). Cymraeg 2050 – miliwn o siaradwyr Cymraeg. https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/cymraeg-2050-strategaeth-y-gymraeg-v1-1.pdf

21 Comisiynydd y Gymraeg (2026). Maniffesto 2026: Comisiynydd y Gymraeg; cynigion ar gyfer etholiad Senedd Cymru 2026. https://www.comisiynyddygymraeg.cymru/media/xnjl5zw4/maniffesto-2026-comisiynydd-y-gymraeg.pdf

22 Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith (2025). Adroddiad Cyflwr y Genedl - y gweithlu therapi lleferydd ac iaith yng Nghymru. https://www.rcslt.org/wp-content/uploads/2025/01/RCSLT-Wales-State-of-the-Nation-report_Welsh-version-January-2025.pdf

## Oedolion

Yn adroddiad Cyflwr y Genedl 2025, trafodwyd casgliadau o nifer o adroddiadau gan bartneriaid yn y trydydd sector bod darpariaeth therapi lleferydd ac iaith i oedolion yn ddarniog ac yn ddibynnol ar god post.[22] Ar gyfer y fersiwn hon o'r adroddiad, rydym wedi edrych yn fanwl ar feysydd clinigol y mae cymarebau staffio penodol ar eu cyfer a darpariaeth meincnodi yn erbyn y lefelau a argymhellir. Rydym hefyd wedi ystyried y galw mewn meysydd allweddol eraill ac wedi edrych ar arferion gorau wrth ymateb i gymhlethdod cynyddol anghenion.



# Strôc

## Strôc

Yn adroddiad 2025, fe wnaethom dynnu sylw at bryderon penodol ynghylch therapi lleferydd ac iaith mewn gwasanaethau strôc. Mae'r gweithlu therapi lleferydd ac iaith yn chwarae rhan allweddol yn y llwybr strôc. Mae ymchwil yn awgrymu bod **64%** o oroeswyr strôc sy'n gleifion mewnol yn cael rhywfaint o anhawster cyfathrebu ar ôl strôc[23] a bydd o leiaf **40%** o oroeswyr strôc yn profi rhywfaint o anhawster llyncu ar y dechrau.[24]

Mae Safonau Gwasanaeth Strôc Cenedlaethol GIG Cymru[25] yn cynnwys argymhellion staffio ar gyfer therapi lleferydd ac iaith ar dri phrif gam yn y llwybr – y cyfnod acíwt, adferiad ac adsefydlu a gofal strôc cymunedol integredig. Fe wnaethom feincnodi gwasanaethau ledled Cymru rhwng Ionawr a Mawrth 2026 drwy wneud cais am ddata gan dimau therapi lleferydd ac iaith y byrddau iechyd lleol i ddeall yn well a ydym yn bodloni'r argymhellion hyn. Rydym yn bryderus iawn am ganlyniadau'r ymarfer meincnodi hwn.

23 Mitchell, M, Tyson, S, Vail, A, Conroy, P, Paley, L, & Bowen, A, (2021). Prevalence of aphasia and dysarthria among inpatient stroke survivors: describing the population, therapy provision and outcomes on discharge, Aphasiology, 35:7, 950-960.

24 Banda, K.J., Chu, H., Kang, X.L. et al. Prevalence of dysphagia and risk of pneumonia and mortality in acute stroke patients: a meta-analysis. BMC Geriatr 22, 420

25 Perfformiad a Gwelliant GIG Cymru (2025). Safonau Gwasanaeth Strôc Cenedlaethol GIG Cymru. https://perfformiadagwella.gig.cymru/swyddogaethau/rhwydweithiau-a-chynllunio/stroc/dogfennau-stroc/safonau-gwasanaeth-stroc-cenedlaethol-gig-cymru/



### Cyfnod Acíwt Strôc o gyrraedd yr ysbyty




**Diffyg cyfartalog o 37% ar gyfer darpariaeth therapi lleferydd ac iaith yn y cyfnod acíwt**

Mae Safonau Gwasanaeth Strôc Cenedlaethol GIG Cymru yn argymell isafswm lefel staffio o 0.48 therapydd lleferydd ac iaith sy'n gyfwerth ag amser llawn (CALI) fesul 5 gwely mewn model cyflenwi saith diwrnod. Ar hyn o bryd ledled Cymru, **dim ond un o'r chwech bwrdd iechyd lleol sy'n darparu gwasanaeth therapi lleferydd ac iaith yng nghyfnod acíwt strôc oedd yn bodloni'r argymhelliad CALI** (nid yw Bwrdd Iechyd Addysgu Powys wedi'i gynnwys gan nad oes ganddo ysbyty cyffredinol ardal). Yn y pum bwrdd iechyd lleol sy'n weddill, roedd diffyg cyfartalog o **37%**. **Nid oedd unrhyw wasanaethau yn cynnig model saith diwrnod o gyflenwi.**

### Adferiad ac Adsefydlu




**Diffyg cyfartalog o 44% ym mhob bwrdd iechyd lleol**

Mae Safonau Gwasanaeth Strôc Cenedlaethol GIG Cymru yn argymell y dylai fod isafswm lefel staffio o 0.56 therapydd lleferydd ac iaith CALI fesul 5 gwely mewn model cyflenwi saith diwrnod. Ar hyn o bryd ledled Cymru, mae diffyg cyfartalog o **44%** ym mhob un o'r saith bwrdd iechyd lleol, **heb unrhyw wasanaethau sy'n cynnig model cyflenwi saith diwrnod.**

### Gofal Strôc Cymunedol Integredig




**Diffyg cyfartalog o 50% yn y ddarpariaeth therapi lleferydd ac iaith gyda gofal strôc cymunedol integredig**

Mae Safonau Gwasanaeth Strôc Cenedlaethol GIG Cymru yn argymell y dylai fod isafswm lefel staffio o 0.4 therapydd lleferydd ac iaith CALI fesul 100 claf mewn model cyflenwi saith diwrnod ar gyfer y llwybr Rhyddhad Cynnar â Chymorth. Ar hyn o bryd ledled Cymru, **dim ond tri o'r saith bwrdd iechyd sy'n bodloni'r lefelau staffio a argymhellir.** Yn y pedwar bwrdd iechyd sy'n weddill, mae diffyg cyfartalog o **50%**. **Nid oes un gwasanaeth yng Nghymru yn cynnig model cyflenwi saith diwrnod.**

# Gofal dwys

## Gofal dwys




**Diffyg cyfartalog o 57% yn y ddarpariaeth therapi lleferydd ac iaith sydd ag uned gofal dwys ar draws y chwe bwrdd iechyd lleol**

Mae pobl sy'n cael eu derbyn i unedau gofal critigol yn aml yn profi anawsterau cyfathrebu, llais a llyncu fel rhan o'u diagnosis sylfaenol a/neu sy'n gysylltiedig ag arhosiad hir yn yr Uned Gofal Dwys. Mae hyd at **62%** o gleifion yn profi anawsterau llyncu ar ôl tynnu tiwb anadlu yn yr uned gofal dwys.[26]

Mae canllawiau'r Gyfadran Meddygaeth Gofal Dwys a'r Gymdeithas Gofal Dwys[27] ar gyfer darparu gwasanaethau gofal dwys yn nodi bod yn rhaid i unedau gofal critigol gael mynediad at therapydd lleferydd ac iaith bum diwrnod yr wythnos yn ystod oriau gwaith. Mae'r safonau yn argymell bod angen isafswm lefel staffio o 0.1 CALl (cyfwerth ag amser llawn) er mwyn darparu gwasanaeth therapi lleferydd ac iaith gofal critigol. Pan wnaethom feincnodi therapi lleferydd ac iaith mewn unedau gofal critigol ledled Cymru yn erbyn y safonau, roedd yn bryder gennym weld bod diffyg cyfartalog o **57%** yn y ddarpariaeth ar draws y chwe bwrdd iechyd lleol sydd ag uned gofal dwys.

26 Zuercher, P, Moret, C S, Dziewas, R and Schefold, J C (2019). Dysphagia in the intensive care unit: epidemiology, mechanisms, and clinical management. Crit Care 23, 103 (2019). https://doi.org/10.1186/s13054-019-2400

27 The Faculty for Intensive Care Medicine and Intensive Care Society (2026). Guidelines for the Provision of Intensive Care Services Guidelines for the Provision of Intensive Care Services | The Faculty of Intensive Care Medicine



# Niwroadsefydlu

## Niwroadsefydlu




**Diffyg cyfartalog ar draws y pedwar bwrdd iechyd lleol sy'n cynnig darpariaeth therapi lleferydd ac iaith ym maes adsefydlu cymunedol arbenigol**

Mae therapyddion lleferydd ac iaith yn chwarae rôl hanfodol ym maes niwroadsefydlu wrth asesu, trin a rheoli llyncu (dysffagia), lleferydd, iaith, ac anhwylderau cyfathrebu gwybyddol sy'n deillio o anaf i'r ymennydd, strôc, neu gyflyrau niwroddirywiol. Mae Cymdeithas Meddygaeth Adsefydlu Prydain yn argymell y dylai isafswm darpariaeth staffio ar gyfer gwasanaeth adsefydlu cleifion mewnol arbenigol ardal fod cyfwerth â 2-2.5 therapydd lleferydd ac iaith CALl (yn dibynnu ar p'un a dderbynnir cleifion traceostomi). Dylai isafswm darpariaeth staffio ar gyfer gwasanaethau adsefydlu arbenigol cymunedol i gefnogi pobl â chyflyrau niwrolegol hirdymor fod yn 4 therapydd lleferydd ac iaith CALl fesul poblogaeth o 1 miliwn.

Fe wnaethom feincnodi gwasanaethau therapi lleferydd ac iaith y byrddau iechyd lleol yn erbyn yr argymhellion hyn a chanfod diffyg cyfartalog o **70%** ar draws y pedwar bwrdd iechyd lleol sy'n cynnig darpariaeth adsefydlu cymunedol arbenigol. Dim ond dau fwrdd iechyd sydd ag uned adsefydlu cleifion mewnol arbenigol, ac mae un ohonynt yn bodloni'r lefel staffio a argymhellir, ond nid yw'r llall, gyda diffyg o **43%**.

# Cyfiawnder

## Cyfiawnder




**o'r gwasanaethau sydd â therapyddion lleferydd ac iaith wedi'u hymgorffori yn eu timau**

Mae bellach yn dair blynedd ers adroddiad Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y Senedd yn 2023, 60% Rhoi llais iddyn nhw.[28] Gwnaeth y pwyllgor argymhelliad allweddol: 'Dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag awdurdodau lleol i ddatblygu cynlluniau ar gyfer lleoli therapyddion lleferydd ac iaith ym mhob Tîm Troseddau Ieuenctid yng Nghymru' a gafodd ei wrthod gan Lywodraeth Cymru.

Ar ôl cyhoeddi'r adroddiad[29], mae adroddiadau arolygu cyfiawnder ieuenctid[30] wedi nodi'n gyson ddarpariaeth therapi lleferydd ac iaith fel bwlch ac wedi cynnwys argymhellion allweddol i fynd i'r afael â'r mater hwn. Mae RCSLT Cymru'n parhau i weithio gyda rheolwyr y gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid i wthio am ragor o swyddi therapi lleferydd ac iaith ym maes cyfiawnder ieuenctid. Ar y dudalen nesaf, rydym wedi casglu data ar sefyllfa bresennol y ddarpariaeth therapi lleferydd ac iaith yn y gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru. Mae'r data yn dangos mai dim ond **50%** o'r gwasanaethau sydd â therapyddion lleferydd ac iaith wedi'u hymgorffori yn eu timau. Mae hwn yn faes sy'n parhau i ofyn am fuddsoddiad a chynllunio gweithlu hirdymor ar fyrder i roi terfyn ar loteri cod post gwasanaethau ledled Cymru.

Gan edrych y tu hwnt i gyfiawnder ieuenctid i'r system cyfiawnder troseddol ehangach, rydym yn ymwybodol o geisiadau cynyddol gan garchardai am gymorth therapydd lleferydd ac iaith ynghylch anghenion cyfathrebu, bwyta, yfed a llyncu. Carchar y Berwyn yw'r unig garchar yng Nghymru sydd â gwasanaeth therapi lleferydd ac iaith wedi'i gomisiynu. **Nid oes gwasanaeth therapi lleferydd ac iaith wedi'i gomisiynu yng Ngharchar ei Fawrhydi Caerdydd, CEF Abertawe, CEF Brynbuga a Phrescoed na CEF y Parc.**

28 Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y Senedd. 60% Rhoi llais iddyn nhw - anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn y system cyfiawnder ieuenctid. https://senedd.wales/media/0zznsck2/cr-ld15786-w.pdf
29 Ibid
30 HMIP (2024). Arolygiad o wasanaethau cyfiawnder ieuenctid Conwy a Sir Ddinbych https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/wp-content/uploads/sites/5/2024/03/Arolygiad-o-wasanaethau-cyfiawnder-ieuenctid-Conwy-a-Sir-Ddinbych.pdf HMIP (2024). Archwiliad o wasanaethau cyfiawnder ieuenctid yng Ngwynedd a Môn. https://democratiaeth.gwynedd.llyw.cymru/documents/s41566/Arolygiad-o-wasanaethau-troseddau-ieuenctid-Gwynedd-ac-Ynys-Mon.pdf?LLL=1



| Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid | Nifer y therapyddion lleferydd ac iaith (CALl) ym mis Awst 2025 | Contractio a Chyllido fel cytundeb lefel gwasanaeth gyda'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid |
|---|---|---|
| Blaenau Gwent a Rhymni | 0.4 | cytundeb lefel gwasanaeth gyda'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 0.4 | cytundeb lefel gwasanaeth gyda'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid |
| Caerdydd | 1 | cytundeb lefel gwasanaeth gyda'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid |
| Sir Gâr | 0.6 | cytundeb lefel gwasanaeth gyda'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid |
| Ceredigion | 0 | |
| Conwy a Sir Ddinbych | 0 | |
| Cwm Taf (Merthyr a Rhondda Cynon Taf) | 0.6 | cytundeb lefel gwasanaeth gyda'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid |
| Sir y Fflint | 0 | |
| Gwynedd ac Ynys Môn | 0 | |
| Sir Fynwy a Thorfaen | 0.2 | cytundeb lefel gwasanaeth gyda'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid |
| Casnewydd | 0.6 + 0.2 gydag uned cyfeirio disgyblion | cytundeb lefel gwasanaeth gyda'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid |
| Sir Benfro | 0 | |
| Powys | 0 | |
| Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot (CNPT) (yn cynnwys Cartref Diogel Hillside) (trefniadau ar y cyd) | 1.9 therapydd ac 1.0 cynorthwyydd | cytundeb lefel gwasanaeth gyda'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid |
| Bro Morgannwg | 0 | |
| Wrecsam | 0 | |

# Iechyd meddwl

## Iechyd meddwl

- Fel y nodwyd yn adroddiad 2025[31], mae gan therapyddion lleferydd ac iaith rôl unigryw i'w chwarae fel aelodau o dimau iechyd meddwl amlddisgyblaethol wrth nodi anawsterau cyfathrebu ac anhwylderau llyncu, a chefnogi a rheoli a lleihau niwed a risg gysylltiedig.

  Yn dilyn pasio Deddf Iechyd Meddwl 2026, mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i sicrhau bod y Cod Ymarfer newydd yn cynnig canllawiau clir i lunwyr penderfyniadau a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n ymwneud â gofal a thriniaeth person ar sut i gefnogi unigolion ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu. Ochr yn ochr â diweddaru'r Cod, bydd yr is-ddeddfwriaeth angenrheidiol hefyd yn cael ei datblygu. Fel rhan o'r datblygiad hwn, bydd y cyfarwyddiadau statudol o dan Adran 12ZA, sy'n nodi pwy y gellir ac na ellir ei gymeradwyo fel clinigydd cymeradwy, yn cael eu hehangu. Rhoddir ystyriaeth i ymestyn y meini prawf i gynnwys therapyddion lleferydd ac iaith. Bydd gan y newid hwn oblygiadau sylweddol i'r gweithlu.

31 Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith (2025). Adroddiad Cyflwr y Genedl - y gweithlu therapi lleferydd ac iaith yng Nghymru. https://www.rcslt.org/wp-content/uploads/2025/01/RCSLT-Wales-State-of-the-Nation-report_Welsh-version-January-2025.pdf





# Tueddiadau sy'n newid

## Tueddiadau sy'n newid

- Mae gwasanaethau therapi lleferydd ac iaith oedolion y byrddau iechyd lleol yn nodi cynnydd sylweddol yn y galw o feysydd clinigol newydd. Mae'r rhain yn cynnwys mudandod dethol, cyflwyniadau niwroamrywiol (e.e. awtistiaeth) ac oedolion yn y system gyfiawnder. Mae galw cynyddol hefyd am therapyddion lleferydd ac iaith i gefnogi unigolion ag anhwylderau niwrolegol swyddogaethol - cyflwr cymhleth sy'n gofyn am set o sgiliau arbenigol a darpariaeth tîm amlddisgyblaethol ar y cyd (sydd ar hyn o bryd yn brin yn y rhan fwyaf o fyrddau iechyd).

Yn draddodiadol, mae therapyddion lleferydd ac iaith oedolion yn meddu ar y sgiliau i gefnogi pobl ag anhwylderau niwrolegol caffaeledig ond mae'r gwasanaethau yn adrodd am gynnydd yn y niferoedd o atgyfeiriadau ar gyfer anhwylderau datblygiadol sy'n gofyn am set sgiliau gwahanol.

Yn erbyn y cefndir hwn o alw cynyddol ac anghenion cyfnewidiol, mae gwasanaethau oedolion yn edrych fwyfwy ar ailgynllunio gwasanaethau er mwyn gwella'r gofal.



## Enghraifft o arfer gorau

### Trawsnewid gwasanaethau therapi iaith ac iaith acíwt drwy arloesi

Mewn ymateb i'r galw cynyddol a dim adnoddau ychwanegol, rhwng 2023-2025, ymgymerodd y tîm Therapi Lleferydd ac Iaith Acíwt ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg â thrawsnewidiad uchelgeisiol ac arloesol o'r ddarpariaeth gwasanaethau ar draws tri ysbyty cyffredinol dosbarth a dau ysbyty cymunedol.

Yn ganolog i'r trawsnewidiad hwn bu mabwysiadu Fframwaith Nodau Gofal Kate Malcomess. Mae'r dull hwn wedi ailddiffinio'r ffordd y mae atgyfeiriadau a thriniaethau yn cael eu rheoli, gan gyflwyno llinell ffôn "Cais am Help" ganolog wedi'i staffio gan uwch glinigwyr ar rota. Mae'r system hon yn sicrhau bod cleifion ac atgyfeirwyr yn derbyn cyngor amserol, addysg a chyfeiriadau, tra bod ymchwiliadau a thriniaeth yn cael eu trefnu pan fo angen. Pan fydd angen triniaeth, gosodir nodau gofal a chaiff cynnydd ei fonitro'n barhaus. Caiff achosion eu hadolygu mewn sesiynau goruchwylio clinigol grŵp bob pythefnos, gan atgyfnerthu ymarfer myfyriol fel conglfaen darparu gwasanaethau. Mae effaith glinigol yn cael ei mesur drwy gyflawni nodau a sgoriau Mesur Canlyniadau Therapi, tra bod dangosyddion perfformiad allweddol fel amseroedd ymateb a chyfran y cleifion sydd angen ymyrraeth arbenigol yn darparu data tryloyw ar gyfer gwerthuso a chynllunio gwasanaethau.

Mae'r arloesedd wedi optimeiddio'r capasiti presennol ac wedi cyflawni gwelliannau mesuradwy o ran canlyniadau cleifion a pherfformiad y system gyfan. Er enghraifft, mae'r galw am apwyntiadau dilynol fesul wythnos wedi gostwng yn sylweddol o 125 yr wythnos ym mis Gorffennaf 2023 i 50 ym mis Gorffennaf 2024 ac mae canran y cleifion sy'n cyflawni'r nodau a osodwyd ar ddechrau'r gofal yn parhau i gynyddu (o **60%** i **90%** yn 2025). Mae hefyd wedi cael effaith enfawr ar forâl y staff. Wedi'u rhyddhau o aneffeithlonrwydd, mae clinigwyr bellach yn cymryd rhan weithredol mewn mentrau gwella ansawdd lleol a rhyngbroffesiynol ac yn datblygu sgiliau clinigol uwch sy'n cryfhau'r gwasanaeth ymhellach. Mae'r newid hwn wedi creu diwylliant sy'n gwerthfawrogi twf proffesiynol, cydweithredu a lles, gan sicrhau bod gwelliannau o fudd nid yn unig i gleifion ond hefyd i'r gweithlu a'r gymuned iechyd ehangach.



# Sut olwg sydd ar y gweithlu therapi lleferydd ac iaith presennol?

Mae'r bennod hon yn adeiladu ar adroddiad y llynedd[1], a oedd yn ystyried a yw'r gweithlu therapi lleferydd ac iaith yng Nghymru yn adlewyrchu'r boblogaeth yr ydym yn ei gwasanaethu.

Rydym yn archwilio newidiadau i gyfansoddiad y gweithlu ers 2025 ac yn edrych ar gyfraddau swyddi gwag. Rydym hefyd yn cynnwys dyfyniadau o'n haelodaeth ledled Cymru.

1 Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith (2025). Adroddiad Cyflwr y Genedl - y gweithlu therapi lleferydd ac iaith yng Nghymru. https://www.rcslt.org/wp-content/uploads/2025/01/RCSLT-Wales-State-of-the-Nation-report_Welsh-version-January-2025.pdf

# Swyddi gwag

**Ym mis Mawrth 2025:**

835

o therapyddion lleferydd ac iaith yn GIG Cymru

685.8

CALl ym mis Mawrth 2025

Yn gyson â gweddill gweithlu'r GIG yng Nghymru, mae nifer y therapyddion lleferydd ac iaith yng Nghymru wedi tyfu dros y degawd diwethaf. Mae dadansoddiad o ddata o gofnod staff electronig GIG Cymru[2] (ESR) yn datgelu bod **835** o therapyddion lleferydd ac iaith yn GIG Cymru (cyfrif pennau), cyfwerth ag amser llawn (CALl) - **685.8** ym mis Mawrth 2025 – cynnydd o **3%** ar ffigur 2024.

Nododd adroddiad diweddar Tueddiadau Gweithlu GIG Cymru[3] fod y cynnydd canrannol cyfrannol uchaf o ran twf grwpiau gweithlu wedi digwydd yn y Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd, gyda chynnydd o **30.8%** (rhwng mis Mawrth 2020 a mis Mawrth 2025). Mae data a gyhoeddwyd gan Stats Cymru[4] yn dangos cynnydd o **16.3%** yn unig mewn therapyddion lleferydd ac iaith CALl dros yr un cyfnod, gan awgrymu nad yw therapi lleferydd ac iaith yn cadw i fyny â thwf y gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd eraill. Nid ydym ychwaith yn cadw i fyny â datblygiadau dros y ffin yn Lloegr lle mae ein data aelodaeth yn dangos bod nifer y therapyddion lleferydd ac iaith wedi cynyddu'n sylweddol.

| Blwyddyn (o fis Mawrth) | Therapyddion lleferydd ac iaith (nifer pobl) | Cyfwerth ag amser llawn |
|---|---|---|
| 2020 | 718 | 560.0 |
| 2021 | 766 | 599.4 |
| 2022 | 777 | 617.6 |
| 2023 | 803 | 649.8 |
| 2024 | 822 | 664.3 |
| 2025 | 835 | 685.8 |

## Swyddi gwag

Cyfradd swyddi gwag o

5.1%

Yn seiliedig ar ddadansoddiad o ddata o arolwg gweithlu RCSLT ym mis Ionawr 2026, nodwyd cyfradd swyddi gwag o **5.1%** ar gyfer Cymru.[5] Mae hyn yn cymharu â'r gyfradd swyddi gwag amcangyfrifedig o **3.8%** mewn staff gwyddonol, therapiwtig a thechnegol yn ystadegau swyddi gwag GIG Cymru (Mawrth 2025).[6] Mae'r gyfradd yn amrywio'n sylweddol rhwng byrddau iechyd lleol gyda'r byrddau iechyd lleol mwy gwledig yn profi cyfraddau swyddi gwag o hyd at **14.5%**. Yn ôl y gwasanaethau, datgelwyd mai swyddi band 6 a 7 sy'n achosi'r heriau recriwtio mwyaf.

Adroddodd **chwech o'r saith** bwrdd iechyd lleol yng Nghymru yn arolwg gweithlu 2026 nad yw'r nifer presennol o therapyddion lleferydd ac iaith yn ddigonol i ddiwallu anghenion y gwasanaeth a datgelodd **pedwar o'r saith** gwasanaeth fod swyddi therapi lleferydd ac iaith cymwysedig wedi'u rhewi yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.[7]

2 Stats Cymru (2026). Staff GIG Cymru: Staff anfeddygol eraill, yn ôl math o swydd a maes gwaith https://stats.llyw.cymru/cy-GB/topic/52/staff

3 Addysg a Gwella Iechyd Cymru (2025). Adroddiad tueddiadau gweithlu GIG Cymru (ar 31 Mawrth 2025). https://aagic.gig.cymru/files/tueddiadau-gweithlu-gig-cymru-mawrth-2025/

4 Ibid

5 Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith (2026). Data a gasglwyd ar gyfer yr adroddiad hwn ac ar gyfer arolwg 2026 RCSLT o swyddi gwag a niferoedd cadw

6 Addysg a Gwella Iechyd Cymru (2025). Adroddiad tueddiadau gweithlu GIG Cymru (ar 31 Mawrth 2025). https://aagic.gig.cymru/files/tueddiadau-gweithlu-gig-cymru-mawrth-2025/

7 Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith (2026). Data a gasglwyd ar gyfer yr adroddiad hwn ac ar gyfer arolwg 2026 RCSLT o swyddi gwag a niferoedd cadw

# Darpariaeth cyfrwng Cymraeg

## Y Gymraeg

22%

o therapyddion lleferydd ac iaith yn gallu darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg

31%

o gynorthwywyr therapi lleferydd ac iaith yn gallu darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg

O dan Safonau'r Gymraeg, mae'n ofynnol i fyrddau iechyd lleol gyhoeddi cynlluniau 5 mlynedd sy'n nodi'r camau arfaethedig i wella eu gallu i gynnal ymgynghoriadau clinigol yn Gymraeg (safon 110). Fel rhan o'r cynlluniau hyn, mae byrddau iechyd lleol yn nodi'r meysydd hynny o ofal iechyd y maent yn bwriadu eu blaenoriaethu. Mae pobl sy'n defnyddio gwasanaethau therapi lleferydd ac iaith yn cael eu cynnwys fel maes blaenoriaeth yn unol â'r meysydd a nodwyd yn Mwy na geiriau[8] - cynllun Llywodraeth Cymru ar gyfer darparu gwasanaethau iechyd a gofal drwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn ôl data cyfrifiad 2021[9] mae **18%** o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg. Fel y gwelir yn adroddiad Tueddiadau Gweithlu GIG Cymru[10], mae dadansoddi lefel cymhwysedd Cymraeg staff GIG Cymru yn heriol. Yn ein hadroddiad 2025[11], amcangyfrifwyd y gallai **18%** o'r gweithlu therapi lleferydd ac iaith ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg, yn seiliedig ar geisiadau rhyddid gwybodaeth i fyrddau iechyd lleol. Fe wnaethom ailadrodd y cais rhyddid gwybodaeth i bob bwrdd iechyd lleol ym mis Ionawr 2026. Dangosodd data 2026 fod **22%** o therapyddion lleferydd ac iaith a **31%** o gynorthwywyr therapi lleferydd ac iaith yn gallu darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg, sy'n awgrymu bod ein gweithlu yn cynrychioli'r boblogaeth y mae'n ei gwasanaethu.

Serch hynny, fel y nodwyd gennym yn ein hadroddiad yn 2025[12], mae angen dybryd i ddeall yn well y gallu i ddarparu gwasanaethau dwyieithog mewn ardaloedd lleol ac ar draws arbenigeddau clinigol. Er gwaethaf blaenoriaethu therapi lleferydd ac iaith, nid ydym hyd yn hyn wedi gweld llawer o waith cynllunio gweithlu â ffocws i sicrhau bod y proffesiwn yn gallu cyflawni uchelgeisiau'r cynllun 'Mwy na geiriau' a strategaeth Cymraeg 2050.[13]

8 Llywodraeth Cymru (2022). Mwy na geiriau – cynllun pum mlynedd 2022-27 mwy-na-geiriau-cynllun-gweithredu-2022-2027.pdf

9 Llywodraeth Cymru (2022). Ystadegau - Y Gymraeg yng Nghymru (Cyfrifiad 2021). https://www.llyw.cymru/sites/default/files/pdf-versions/2022/12/3/1671610676/y-gymraeg-yng-nghymru-cyfrifiad-2021.pdf

10 Addysg a Gwella Iechyd Cymru (2025). Adroddiad tueddiadau gweithlu GIG Cymru (ar 31 Mawrth 2025). https://aagic.gig.cymru/files/tueddiadau-gweithlu-gig-cymru-mawrth-2025/


11 Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith (2025). Adroddiad Cyflwr y Genedl - y gweithlu therapi lleferydd ac iaith yng Nghymru. https://www.rcslt.org/wp-content/uploads/2025/01/RCSLT-Wales-State-of-the-Nation-report_Welsh-version-January-2025.pdf

12 Ibid.

13 Llywodraeth Cymru (2017). Cymraeg 2050 – miliwn o siaradwyr Cymraeg. https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/cymraeg-2050-strategaeth-y-gymraeg-v1-1.pdf

# Darpariaeth cyfrwng Cymraeg

- Mae angen clir am ymchwil hefyd i archwilio a chymharu datblygiad normadol a nam, er mwyn cynyddu gallu therapyddion lleferydd ac iaith i asesu, diagnosio a thrin anhwylderau. Rydym yn croesawu'n fawr ddatblygiad Prosiect Pengwin – ymchwil a ariennir gan Lywodraeth Cymru sy'n datblygu offer ac adnoddau dwyieithog a fydd yn cefnogi ymarferwyr iechyd, addysg a gofal plant i adnabod a chefnogi sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu yn y blynyddoedd cynnar. Mae hwn yn ddatblygiad hanfodol ac rydym yn annog ystyriaeth o asesiadau Cymraeg wedi'u dilysu ar gyfer oedolion er mwyn sicrhau tegwch y ddarpariaeth. Er enghraifft, rydym yn ymwybodol nad oes asesiadau Cymraeg ffurfiol ar hyn o bryd ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia neu oroeswyr strôc.



## Enghraifft o arfer gorau

### Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr – Trawsnewid y ddarpariaeth Gymraeg


Mae'r gwasanaeth therapi lleferydd ac iaith ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr Gorllewinol (BIPBC) o'r farn bod darparu therapi lleferydd ac iaith dwyieithog yn flaenoriaeth hanfodol, er mwyn diwallu anghenion Iaith Gymraeg y boblogaeth leol. Mae'r gwasanaeth yn cwmpasu Gwynedd ac Ynys Môn, lle mae'r dwysedd uchaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae arweinwyr y gwasanaeth wedi bod yn weithgar wrth ddatblygu sgiliau Cymraeg y tîm. Mae mwy na **80%** o'r staff yn siaradwyr Cymraeg rhugl, ac mae gan weddill y tîm sgiliau Cymraeg amrywiol. Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'r gwasanaeth wedi gallu cyflogi wyth o ymarferwyr newydd gymhwyso Cymraeg eu hiaith, sy'n rhan enfawr o'u dull 'tyfu eich gweithlu eich hun' ac mae hyn yn galonogol iawn.

Caiff staff nad yw'r Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt eu hannog a'u cefnogi'n weithredol i fynychu cyrsiau byrddau iechyd i wella eu sgiliau Cymraeg a datblygu eu hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. Mae llawer o ddysgwyr wedi datblygu eu hyfedredd i lefel lle gallant ddarparu gwasanaethau'n uniongyrchol drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r tîm hefyd yn cydweithio â Phrifysgol Bangor a Nant Gwrtheyrn, lle mae staff yn cwblhau cyrsiau Cymraeg yn y Gweithle i gryfhau eu sgiliau ymhellach.


Yn 2025, dyfarnwyd Gwobr Cyflawniad i'r Gymraeg Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i'r tîm i gydnabod eu gallu i ddarparu gwasanaethau i bobl yn y Gymraeg, ac am eu dull cefnogol sy'n seiliedig ar dîm o feithrin ac annog yr holl staff i ddatblygu eu Cymraeg. Enillodd un o'r tîm, sy'n hanu o Iwerddon, wobr Dysgwr Cymraeg y Flwyddyn BIPBC yn ddiweddar.

# Sut olwg sydd ar y gweithlu therapi lleferydd ac iaith presennol?

## Lleoliadau





o therapyddion lleferydd ac iaith yn gweithio mewn gwasanaethau pediatrig




yn gweithio mewn gwasanaethau i oedolion

Mae cael data ar y lleoliadau lle mae therapyddion lleferydd ac iaith a chynorthwywyr yn gweithio yn her barhaus. Mae ein data aelodaeth ledled y DU yn dangos bod tua **60%** o therapyddion lleferydd ac iaith yn gweithio mewn gwasanaethau pediatrig ac mae **40%** yn gweithio mewn gwasanaethau i oedolion. Mae'n hanfodol ein bod yn deall natur y proffesiwn yn llawn a sut mae'n newid dros amser er mwyn cynllunio'r gweithlu yn effeithiol ar gyfer y dyfodol. Rydym yn croesawu'r gwaith diweddar gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru ar lanhau data ac rydym yn awyddus i weithio gyda'r sefydliad i fireinio'r data sydd ar gael ymhellach i gefnogi gwaith cynllunio gweithlu effeithiol.

## Ymarfer annibynnol




o gynnydd mewn therapyddion lleferydd ac iaith sy'n gweithio mewn practis annibynnol

Mae cronfa ddata Cymdeithas y Therapyddion Lleferydd ac Iaith mewn Ymarfer Annibynnol (ASLTIP) ar gyfer therapyddion lleferydd ac iaith sy'n gweithio mewn practisau annibynnol[14] yn nodi bod 32 o ymarferwyr yn gweithio yng Nghymru, sef cynnydd o **14%** ers adroddiad 2025 (28 o ymarferwyr annibynnol)[15]. Deallwn nad yw nifer o aelodau sy'n ymarfer yn annibynnol yn aelodau o ASLTIP a bod maint y sector annibynnol yng Nghymru yn tyfu. Mae ein data arolwg o aelodaeth ledled y DU yn dangos bod **20%** o therapyddion lleferydd ac iaith yn gweithio mewn practis annibynnol (ac mae **5%** ohonynt yn gweithio mewn practis annibynnol a'r GIG).

Mae aelodau annibynnol wedi tynnu sylw at nifer o broblemau yn ystod y misoedd diwethaf. Mae rhai aelodau RCSLT sy'n gweithio mewn practis annibynnol yn cael eu hatal rhag mynd i ysgolion i weithio gyda phlant oherwydd y bu newid ym mholisi'r ysgol neu'r awdurdod lleol. Yn ogystal, mae'r newid yn y meini prawf ar gyfer Gwasanaeth Technoleg Cynorthwyol Electronig y GIG (sy'n darparu cymhorthion cyfathrebu amgen) yn golygu nad yw ymarferwyr annibynnol bellach yn gallu atgyfeirio'n uniongyrchol at y gwasanaeth lle roeddent yn gallu o'r blaen. Mae'r newidiadau hyn yn cael effaith sylweddol ar fynediad teuluoedd at therapi lleferydd ac iaith a phlant yn cael eu cefnogi, yn ogystal ag ar y therapyddion gan fod eu gwaith yn cael ei gyfyngu.

## Cymysgedd sgiliau mewn therapi lleferydd ac iaith




o ostyngiad yn y nifer o gynorthwywyr sy'n gweithio yn GIG Cymru

Rydym wedi gweld gwelliannau sylweddol yn y cymysgedd sgiliau ym maes therapi lleferydd ac iaith yn ystod y blynyddoedd diwethaf gyda chynnydd graddol yn nifer y cynorthwywyr therapi lleferydd ac iaith sy'n gweithio yn y GIG. Mae'n siomedig bod gostyngiad wedi bod yn nifer y cynorthwywyr eleni. Bellach, mae **122.7** o gynorthwywyr therapi lleferydd ac iaith CALl yn gweithio yn GIG Cymru, gostyngiad o **12%** o'i gymharu â 139 CALl yn 2025.

Fel proffesiwn rydyn ni'n anelu at greu gweithlu cynaliadwy sy'n gweithio ar frig y drwydded. Byddwn yn ymchwilio i'r mater hwn ymhellach ac yn parhau i alw am well data ar y gweithlu cymorth i lywio gwaith cynllunio gweithlu effeithiol. Rydym hefyd yn pryderu nad oes unrhyw gynnydd wedi'i wneud o ran llwybrau i'r gweithlu hwn ddod yn ymarferwyr cofrestredig. Byddwn yn trafod y mater hwn ymhellach yn y bennod nesaf.

14 The Association of Speech and Language Therapists in Independent Practice (2024). Find a speech and language therapist. https://asltip.com/find-a-speech therapist/

15 Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith (2025). Adroddiad Cyflwr y Genedl - y gweithlu therapi lleferydd ac iaith yng Nghymru. https://www.rcslt.org/wp-content/uploads/2025/01/RCSLT-Wales-State-of-the-Nation-report_Welsh-version-January-2025.pdf

# Sylwadau'r gweithlu: Cynorthwywyr therapi lleferydd ac iaith

## Argymhellion

- Sicrhau cyllid cynaliadwy ar gyfer gwasanaethau therapi lleferydd ac iaith i gwrdd â'r galw cynyddol, yn enwedig mewn meysydd clinigol lle mae ein dadansoddiad meincnodi yn dangos nad yw'r gwasanaethau yn bodloni argymhellion o ran y gweithlu.
- Gwella'r broses o gasglu data ar gyfansoddiad y proffesiwn i'n galluogi i adlewyrchu'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu yn well, gan gynnwys cymorth i wella ein dealltwriaeth o sgiliau Cymraeg ein gweithlu presennol a'r gofynion ar gyfer y dyfodol.
- Cyflwyno gwaith cynllunio gweithlu gwell, mwy soffistigedig ar gyfer y proffesiwn fel rhan o'r agenda ataliol, gan ystyried yr angen i fodloni safonau a galw gan sectorau newydd.
- Blaenoriaethu creu asesiadau Cymraeg mewn meysydd fel dementia a strôc.



**Ble rydych chi'n meddwl eich bod chi wedi cael yr effaith fwyaf yn 2025?**

"Cynnal sesiynau hyfforddi partneriaid cyfathrebu ar gyfer rhieni, gofalwyr a staff addysgu sy'n cefnogi plant a phobl ifanc gan ddefnyddio cyfathrebu estynnol amgen. Mae partneriaid cyfathrebu yn allweddol i ganlyniadau llwyddiannus cyfathrebu estynnol amgen. Drwy gyflwyno'r sesiynau hyn, rydym yn gobeithio grymuso'r rhai sy'n cefnogi'r plentyn i ddefnyddio'r ddyfais yn hyderus.

"Addysgu a gweithio gyda darparwyr gofal - gwaith rhagweithiol. Er nad yw'r gwaith hwn yn aml yn cael ei gofnodi fel cyswllt uniongyrchol â chleifion mewn gwasanaethau anableddau dysgu, dyma lle gallwn yn aml wneud y newid mwyaf.

"Yn bersonol, gallu cyfyngedig sydd gen i i gynnig sesiynau / grwpiau yn Gymraeg ond ar hyn o bryd rwy'n mynychu cwrs i wella fy sgiliau Cymraeg.

**Beth yw'r her fwyaf rydych chi'n ei hwynebu fel cynorthwyydd therapi lleferydd ac iaith yng Nghymru?**

"Dilyniant gyrfa. Byddwn i wrth fy modd yn cael cyfle i symud ymlaen a dod yn therapydd cymwysedig. Dim ond un llwybr sydd i'r proffesiwn, sy'n cynnwys astudio'n llawn amser yn y brifysgol am 3 blynedd, ac mae hyn yn cyfyngu rhywun yn fawr. Byddai'n golygu y byddai'n rhaid i mi adael fy swydd - rhywbeth nad ydw i mewn sefyllfa ariannol i'w wneud. Mae'n gymaint o drueni.

# Sylwadau'r gweithlu: therapyddion lleferydd ac iaith

**Ble rydych chi'n meddwl eich bod chi wedi cael yr effaith fwyaf yn 2025?**

"Sicrhau bod apwyntiadau mynediad cyflym ar gael i gleifion brys.

"E-nodiadau sy'n gwella cyfathrebu ar draws gwasanaethau a gweithwyr proffesiynol – cyfrannu at ofal cyfannol ac integredig.

"Mwy o wybodaeth, darparu addysg i anwyliaid a chwmnïau gofal.

"Mae defnyddio nodau gofal wedi golygu bod gofal yn canolbwyntio llawer mwy ar y claf.



**Ble rydych chi'n meddwl eich bod chi wedi cael yr effaith fwyaf yn 2025?**

"Cael ein graddedigion cyntaf o Brifysgol Gogledd Cymru Wrecsam yn graddio, ac yn llenwi ein swyddi gwag - hwre!

Fel rheolwr gwasanaeth, mae'r gwaith cyhoeddusrwydd y mae'r Coleg Brenhinol wedi'i wneud o amgylch adroddiad Cyflwr y Genedl, RCSLT yn 80, wedi darparu cyfle a llwyfan gwirioneddol i ni dynnu sylw at rôl therapyddion lleferydd ac iaith ar draws ein bwrdd iechyd.

"Gweithio mewn tîm cefnogol iawn. Mae arweinyddiaeth gref gan yr arweinydd clinigol wedi caniatáu cyfleoedd i dreialu dulliau gweithredu e.e. Grŵp ar-lein yn ystod yr haf ar gyfer pobl ifanc yn eu harddegau â mudandod dethol a arweiniodd at ganlyniadau cadarnhaol.


Cyfleoedd i gyflwyno ac ymgorffori dulliau therapi lleferydd sy'n seiliedig ar dystiolaeth fel cyferbyniadau lluosog i dargedu anhwylderau sain lleferydd cymhleth yn well.

Mae ehangu ein tîm o therapyddion lleferydd ac iaith wedi cael effaith gadarnhaol iawn.

**Beth yw'r her fwyaf rydych chi'n ei hwynebu fel cynorthwyydd therapi lleferydd ac iaith yng Nghymru?**

"Sicrhau a diogelu'r gyllideb ar gyfer gwasanaethau therapi lleferydd ac iaith yn y llymder presennol yn y GIG. Mae'n wych ein bod yn hyfforddi mwy o therapyddion, gan gydnabod achosion cynyddol o ran anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu. Serch hynny, oni bai bod mwy o fuddsoddiad mewn gwasanaethau therapi lleferydd ac iaith ar draws y GIG a sefydliadau eraill fel Cyfiawnder Ieuenctid, bydd gennym garfan o fyfyrwyr therapi lleferydd ac iaith nad ydynt yn gallu dod o hyd i waith. Mae hon yn broblem real iawn, gan ein bod ni i gyd yn gorfod gwneud arbedion cost, yn hytrach na buddsoddi mewn cyfleoedd newydd. Pan fydd cyfleoedd yn codi, maent yn aml yn gyllid tymor byr (e.e. cyllid clwstwr o'r rhaglen Clwstwr Cyflym / Siaradwch â mi), nad yw'n caniatáu i ni ddarparu gwasanaethau cynaliadwy.

Cymhlethdod cynyddol anghenion cleientiaid ochr yn ochr â'r gofyn cynyddol am ymyrraeth arbenigol sy'n seiliedig ar dystiolaeth i'r rhai sydd angen ein gwasanaethau. Mae llawer yn gofyn am fewnbwn gan therapyddion lleferydd ac iaith yn hytrach na chynorthwywyr therapi lleferydd ac iaith o ystyried yr hyn y mae ymchwil sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn ei awgrymu. Mae hyn yn effeithio ar y gallu i reoli'r galw am wasanaethau a chynnal mynediad amserol at ofal.



# Sut olwg fydd ar y gweithlu therapi lleferydd ac iaith yn y dyfodol?

Mae angen i'r gweithlu therapi lleferydd ac iaith yn y dyfodol adlewyrchu'r poblogaethau rydyn ni'n eu gwasanaethu o ran amrywiaeth, y Gymraeg a hunaniaeth ddiwylliannol. Mae angen i therapyddion lleferydd ac iaith a chynorthwywyr therapi lleferydd ac iaith y dyfodol feddu ar y sgiliau a'r cymwyseddau i ddatblygu modelau gofal newydd ac addasu i amgylchedd sy'n newid yn gyflym.

**31%**

o ostyngiad yn y niferoedd comisiynu ar gyfer lleoedd hyfforddi therapi lleferydd ac iaith

Yn adroddiad y llynedd[1] fe wnaethom alw am dwf parhaus mewn lleoedd hyfforddi therapi lleferydd ac iaith yn y ddwy brifysgol sy'n cynnig cyrsiau cyn-gofrestru. Mae'n hynod siomedig bod yr alwad hon nid yn unig wedi'i gwrthod ond bod nifer y lleoedd hyfforddi therapi lleferydd ac iaith wedi gostwng yn sylweddol.

Er gwaethaf tystiolaeth yn ein hadroddiad o alw cynyddol sylweddol, mae niferoedd comisiynu ar gyfer 2026/27 wedi gostwng o **55** i **38** (gostyngiad o **31%**), gan adlewyrchu tueddiadau mewn Proffesiynau Perthynol i Iechyd eraill. Mae hyn yn codi pryderon gwirioneddol am y cyflenwad ar gyfer y proffesiwn yn y dyfodol, yn enwedig o ystyried y galw cynyddol am gyrsiau, gyda 18 o ymgeiswyr o ansawdd uchel ar gyfer pob lle ym Mhrifysgol Wrecsam ar gyfer carfan 2026/27[2] ac 8 ymgeisydd ar gyfer pob lle ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd.

| Blwyddyn | Nifer y lleoedd hyfforddi therapi lleferydd ac iaith |
|---|---|
| 2021/22 | 49 |
| 2022/23 | 49 |
| 2023/24 | 49 |
| 2024/25 | 55 |
| 2025/26 | 55 |
| 2026/27 | 38 |

Yn adroddiad 2025[3], nodwyd pryder nad oes cyrsiau ôl-raddedig rhan-amser na dwy flynedd ar gael na llwybrau mwy hygyrch i ddysgu fel cynlluniau ennill cyflog wrth ddysgu. Rydym yn ymwybodol iawn bod y diffyg llwybrau eraill sydd ar gael i'r proffesiwn y tu hwnt i'r cwrs israddedig llawn amser yn effeithio ar amrywiaeth y proffesiwn a'r gallu i ddiwallu anghenion y boblogaeth.

Fel proffesiwn â niferoedd prin[4], credwn fod y model tyfu eich gweithlu eich hun yn cynnig cyfleoedd newydd pwysig ar gyfer dilyniant gyrfa i'r rhai sydd eisoes yn gweithio mewn lleoliadau gofal iechyd ac i'r gweithlu cynorthwywyr therapi lleferydd ac iaith presennol. Mewn arolwg gan RCSLT Cymru o gynorthwywyr therapi lleferydd ac iaith yn 2024, dywedodd **47%** o'r ymatebwyr y byddent yn ystyried hyfforddiant i fod yn therapydd lleferydd ac iaith ac o'r rheini, mynegodd **95%** ffafriaeth tuag at fodel ennill cyflog wrth ddysgu. Mae cyfle i ddysgu o gyflwyno prentisiaethau yn Lloegr, lle mae nifer y prifysgolion sy'n gweithio gyda chyflogwyr i gynnig y brentisiaeth yn parhau i dyfu.

Rydym yn siomedig ynglŷn â'r diffyg cynnydd yng Nghymru o ran prentisiaethau gradd iechyd hyd yn hyn. Roedd hyn yn alwad allweddol yn ein gofynion ar gyfer etholiadau'r Senedd.[5]

1 Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith (2025). Adroddiad Cyflwr y Genedl - y gweithlu therapi lleferydd ac iaith yng Nghymru. https://www.rcslt.org/wp-content/uploads/2025/01/RCSLT-Wales-State-of-the-Nation-report_Welsh-version-January-2025.pdf

2 Addysg a Gwella Iechyd Cymru (2026). Cynllun Addysg a Hyfforddiant 2026-27. https://aagic.gig.cymru/addysg-a-hyfforddiant/cynllun-addysg-a-hyfforddiant-etp/

3 Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith (2025). Adroddiad Cyflwr y Genedl - y gweithlu therapi lleferydd ac iaith yng Nghymru. https://www.rcslt.org/wp-content/uploads/2025/01/RCSLT-Wales-State-of-the-Nation-report_Welsh-version-January-2025.pdf

4 Llywodraeth y DU (2024). Skilled worker visa immigration list. https://www.gov.uk/government/publications/skilled-worker-visa-immigration-salary-list

5 Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith (2025). Maniffesto Etholiadau Senedd RCSLT https://www.rcslt.org/wp-content/uploads/2025/03/RCSLT-Senedd-Elections-Manifesto-March-25-Welsh-version.pdf

# Cadw'r gweithlu presennol

93% o therapyddion lleferydd ac iaith yng Nghymru naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf fod eu rôl yn gwneud gwahaniaeth

Y tu hwnt i edrych ar boblogaeth y myfyrwyr, mae'n hanfodol cefnogi iechyd a lles ein gweithlu presennol. Fel y nodwyd yn Strategaeth Gweithlu Cymru Iachach,[6] 'mae llawer o weithlu'r dyfodol gyda ni heddiw, ac mae cadw ein gweithlu yr un mor bwysig â recriwtio'. Fel rhan o adroddiad cyflwr y genedl yn 2026, rydym wedi canolbwyntio ar y wybodaeth sydd ar gael ar gadw'r gweithlu therapi lleferydd ac iaith yng Nghymru.

Ym mis Gorffennaf 2025, cyhoeddodd RCSLT adroddiad yn cwmpasu'r DU gyfan yn edrych yn benodol ar ffigurau cadw yn y proffesiwn.[7] Roedd ymatebwyr o Gymru wedi'u gorgynrychioli yn yr arolwg (11.8% o'i gymharu â 4.6% o gofrestryddion Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal) ac roedd sawl canfyddiad cadarnhaol.

O holl wledydd y DU, nododd y therapyddion lleferydd ac iaith yng Nghymru y lefelau uchaf o foddhad yn eu rolau. Roedd **77%** o'r ymatebwyr yn fodlon neu'n fodlon iawn â'u swyddi presennol o'i gymharu â **68%** ledled y DU. Atebodd **84%** o'r ymatebwyr yng Nghymru eu bod yn falch o fod yn therapyddion lleferydd ac iaith, a oedd ymhlith y sgôr uchaf ledled y DU. Roedd **93%** o therapyddion yng Nghymru naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf bod eu rôl yn gwneud gwahaniaeth i gleifion/defnyddwyr gwasanaeth, o'i gymharu ag **87%** ledled y DU. Cymru oedd â'r ganran uchaf o therapyddion lleferydd ac iaith oedd yn dweud eu bod yn bwriadu aros yn eu swyddi presennol.

6 Addysg a Gwella Iechyd Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru (2020). Cymru iachach: Ein strategaeth gweithlu ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol. https://gofalcymdeithasol.cymru/cms-assets/documents/Workforce-strategy-CYM-March-2021.pdf

7 Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith (2025). A profession under pressure – SLT retention and waiting times A-profession-under-pressure-SLT-retention-and-waitingtimes.pdf



Dywedodd 55% o therapyddion lleferydd ac iaith Cymru eu bod wedi profi straen aciwt

Fodd bynnag, mewn ymateb i gwestiynau eraill ynghylch cydbwysedd gwaith, bywyd a llwyth gwaith, daeth darlun llai cadarnhaol i'r amlwg. Roedd **51%** o'r ymatebwyr yng Nghymru yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r datganiad 'Mae fy sefydliad yn ymrwymedig i'm helpu i gydbwyso fy mywyd gwaith a chartref'. Yr hyn sy'n achosi pryder yw bod **55%** o therapyddion lleferydd ac iaith Cymru yn dweud eu bod wedi profi straen aciwt o ganlyniad i'w gwaith yn ystod y deuddeg mis diwethaf. Ymhlith y ffactorau sy'n cyfrannu at y straen aciwt hwn roedd pwysau llwyth gwaith, maint / cymhlethdod llwyth achosion, lefelau staffio annigonol a baich gweinyddol.



# Cadw'r gweithlu presennol



**81.1%**
oedd y sgôr positifrwydd o ran cynhwysiant

Am y tro cyntaf eleni, fe wnaethom hefyd ddadansoddi canlyniadau Arolwg Staff GIG Cymru sy'n berthnasol i'r proffesiwn. Mae'r arolwg yn datgelu gwybodaeth o ran ymgysylltiad â'r gweithlu, morâl a diwylliant sefydliadol ar draws GIG Cymru.[8] Dewisodd 319 o'r ymatebwyr staff yn arolwg 2024, therapi lleferydd ac iaith fel eu proffesiwn.

Mae data'r arolwg yn datgelu bod y sgôr positifrwydd ar gyfer staff therapi lleferydd ac iaith yng Nghymru yn uwch ar draws bron pob thema na'r sgôr positifrwydd ar gyfer holl staff GIG Cymru. Yn arbennig o nodedig, y sgôr positifrwydd o ran cynhwysiant oedd **81.1%** o ymatebwyr staff therapi lleferydd ac iaith o'i gymharu â **70.3%** o'r holl staff yn GIG Cymru.

8 Addysg a Gwella Iechyd Cymru (2025) Canlyniadau Arolwg Staff GIG Cymru 2024 – Adroddiad Canfyddiadau Cenedlaethol - https://aagic.gig.cymru/files/arolwg-staff-gig-cymru-2024-adroddiad-canfyddiadau-cenedlaethol/



Nodwyd sgoriau positifrwydd is ar gyfer morâl (**61.4%** ar gyfer ymatebwyr therapi lleferydd ac iaith o'i gymharu â **55.3%** o holl staff GIG Cymru), diogelwch cleifion (**63.5%** ar gyfer ymatebwyr therapi lleferydd ac iaith o'i gymharu â 59.1% ar gyfer holl staff GIG Cymru) a meithrin amgylcheddau gwaith iach, a oedd yn is na ffigur holl staff GIG Cymru (**58.6%** ar gyfer ymatebwyr therapi lleferydd ac iaith o'i gymharu â **58.9%** o holl staff GIG Cymru).

Fel y dadleuom yn adroddiad 2025[9], mae ein tystiolaeth ar gadw staff yn awgrymu bod angen rhagor o waith ar gefnogi cydbwysedd gwaith, bywyd a chyfleoedd gyrfa hyblyg i ddiwallu anghenion newidiol.

Yn adroddiad 2025[10], gwnaethom alw am fwy o gefnogaeth i ddatblygiad proffesiynol parhaus (DPP) ar bob lefel, gan gynnwys cael gwared ar rwystrau sy'n atal gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd rhag gallu datblygu eu sgiliau - er enghraifft, pwyso ar Lywodraeth y DU i ddechrau'r broses o ymestyn cyfrifoldebau rhagnodi annibynnol i weithwyr proffesiynol perthynol i iechyd fel y gallant ddarparu gwell gofal.

9 Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith (2025). Adroddiad Cyflwr y Genedl - y gweithlu therapi lleferydd ac iaith yng Nghymru. https://www.rcslt.org/wp-content/uploads/2025/01/RCSLT-Wales-State-of-the-Nation-report_Welsh-version-January-2025.pdf

10 Ibid

# Cadw'r gweithlu presennol

- Roeddem hefyd yn argymell buddsoddiad mewn uwch bractis a rolau ymgynghorol i alluogi gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd i weithio ar frig eu trwydded a thrawsnewid llwybrau gofal. Mae'n siomedig gweld nad oes fawr o gynnydd wedi bod yn y meysydd allweddol hyn sy'n parhau i fod yn flaenoriaethau parhaus i'r proffesiwn.

Mae technoleg yn parhau i drawsnewid iechyd a gofal cymdeithasol. Mae therapyddion lleferydd ac iaith wedi bod ar flaen y gad o ran cyflwyno teleiechyd ac mae gwaith ymgysylltu â'n haelodau wedi dangos awydd cryf i gynyddu gallu digidol a harneisio posibiliadau deallusrwydd artiffisial. Mae RCSLT Cymru wedi bod yn cefnogi aelodau gyda dysgu proffesiynol ynghylch deallusrwydd artiffisial ond rydym yn parhau i alw am gefnogaeth bellach gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru i sicrhau bod therapyddion lleferydd ac iaith, fel rhan o'r grŵp gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd ehangach, yn datblygu'r sgiliau a'r galluoedd sydd eu hangen i ddarparu gwasanaethau a thrawsnewidiad digidol.



## Argymhellion

- Fel isafswm, adfer nifer lleoedd hyfforddi therapi lleferydd ac iaith i lefelau 2025/26 gyda'r bwriad o gynyddu lleoedd yn y blynyddoedd i ddod i ystyried yr angen cynyddol a modelau gofal newydd.
- Cyflwyno cyfleoedd ennill cyflog wrth ddysgu ar gyfer therapi lleferydd ac iaith i sicrhau'r cyfle gorau posibl i dyfu'r gweithlu.
- Cydnabod pwysigrwydd datblygiad proffesiynol parhaus ac adnoddau ac amser wedi'i neilltuo fel rhan o waith cynllunio swyddi sefydledig.
- Sicrhau argaeledd rolau therapyddion lleferydd ac iaith uwch ac ymgynghorol er mwyn cadw staff.
- Mwy o ffocws gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru ar gynyddu llythrennedd digidol y gweithlu therapi lleferydd ac iaith fel rhan o'r grŵp gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd ehangach.



# Argymhellion

1. Fel isafswm, adfer nifer lleoedd hyfforddi therapi lleferydd ac iaith i lefelau 2025/26 gyda'r bwriad o gynyddu lleoedd yn y blynyddoedd i ddod i ystyried yr angen cynyddol a modelau gofal newydd.
2. Cyflwyno cyfleoedd ennill cyflog wrth ddysgu ar gyfer therapi lleferydd ac iaith i sicrhau'r cyfle gorau posibl i dyfu'r gweithlu.
3. Sicrhau cyllid cynaliadwy ar gyfer gwasanaethau therapi lleferydd ac iaith i gwrdd â'r galw cynyddol, yn enwedig mewn meysydd clinigol lle mae ein dadansoddiad meincnodi yn dangos nad yw'r gwasanaethau yn bodloni'r argymhellion o ran y gweithlu.
4. Gwella'r broses o gasglu data ar gyfansoddiad y proffesiwn i'n galluogi i adlewyrchu'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu yn well, gan gynnwys cymorth i wella ein dealltwriaeth o sgiliau Cymraeg ein gweithlu presennol a'r gofynion ar gyfer y dyfodol.
5. Cyflwyno gwaith cynllunio gweithlu gwell, mwy soffistigedig ar gyfer y proffesiwn fel rhan o'r agenda ataliol, gan ystyried yr angen i fodloni safonau a galw gan sectorau newydd.
6. Blaenoriaethu creu asesiadau Cymraeg mewn meysydd fel dementia a strôc.
7. Cydnabod pwysigrwydd datblygiad proffesiynol parhaus ac adnoddau ac amser wedi'i neilltuo fel rhan o waith cynllunio swyddi sefydledig.
8. Sicrhau argaeledd rolau therapyddion lleferydd ac iaith uwch ac ymgynghorol er mwyn cadw staff.

"

Roeddwn i am rannu gyda chi bod fy mab wrth ei fodd â'i lyfr cyfathrebu ac mae eisoes yn rhan o'i drefn ddyddiol. Mae'n mwynhau edrych ar y lluniau gyda mi pan fydda i'n edrych drwyddynt a'u defnyddio. Hefyd, y bore 'ma, pan oeddwn i'n ei wisgo ar gyfer yr ysgol, pwyntiodd at y llun sbectol ar ofal personol i'm hatgoffa i roi ei sbectol arno a helpodd fi i'w cofio. Rydw i mor falch ohono fe. Rwy'n defnyddio "Bachgen da" yn aml. Fe wnaethon ni ddefnyddio "dewis" a "phecyn ffrwythau". Fe wnes i eu rhoi mewn rhes ac fe ddewisodd yr un yr hoffai gyda'i frecwast.

"

Rwy'n teimlo fy mod i wedi gwella o ran dod o hyd i'r geiriau. Rydw i wedi mwynhau ein sesiynau gyda'n gilydd. Mae'n 10/10 gen i.



"

Mae'n braf gweld y ddau ohonoch yn cael hwyl yn ystod y sesiynau. Mae e wedi gwella cymaint. Mae'n dda y gallwch ei wneud yn hwyl iddo.



"

Heb fy therapydd lleferydd ac iaith, fyddai'r sgiliau, gwybodaeth a'r hyder ddim gen i i siarad fel ydw i. Mae mewnbwn, amser, amynedd, dealltwriaeth a gallu'r therapydd lleferydd ac iaith i gynyddu fy hyder wedi bod heb ei ail. Fel un o'r bobl fwyaf amyneddgar i mi eu cyfarfod erioed, mae fy therapydd lleferydd wedi siarad â mi drwy'r broses anodd o gael fy llais yn ôl. Er nad yw bob amser yn aros felly, mae fy therapydd lleferydd ac iaith wedi rhoi llawer o ymarferion, awgrymiadau a dealltwriaeth i mi o sut mae fy ymennydd a'm blwch llais yn gweithio. Mae'r gefnogaeth hon wedi bod yn amhrisiadwy ac wedi fy ngalluogi i wella fy nealltwriaeth ohonof fy hun, gwella fy sgiliau cyfathrebu o ran perthnasoedd, cyfeillgarwch, gwaith a bywyd cymdeithasol. Drwy gael yr hyder i wybod, hyd yn oed os na alla i 'gael y gair allan' neu ei ynganu'n iawn, galla i ddod o hyd i air arall ac ymarfer dweud y gair rydw i eisiau yn ddiweddarach yn fy amser fy hun.

"

Diolch am eich help a'ch cefnogaeth gyda fy merch. Rwy'n credu go iawn mai chi sydd wedi'n hachub ni wrth sicrhau'r gefnogaeth sydd ei hangen ar fy merch ac rydw i mor ddiolchgar am bopeth rydych chi wedi'i wneud.

"

Dim ond eisiau rhannu rhywfaint o adborth cadarnhaol yn barod. Ar ôl i mi wella o lawdriniaeth, cefais apwyntiadau yn ôl yn yr ysbyty gyda therapi lleferydd ac iaith a seicoleg. Roedd yr apwyntiad hwn yn ffordd hyfryd o ddangos ble roedd gweithrediad fy lleferydd a chof ar ôl llawdriniaeth, i glywed gan yr arbenigwyr ynghylch beth oedd eu barn am ble roedd y gweithrediad a beth allwn i ei wneud i barhau i wella gweithrediad fy ymennydd.

RCSLT WALES CYMRU

# Cysylltwch â ni

3ydd Llawr
Transport House
1 Heol y Gadeirlan
Caerdydd, CF11 9SB

029 2002 5585

walesoffice@rcslt.org

RCSLT Wales